# Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**29 Ebrill 2025**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Rhoddodd Deddf Caffael 2023 ("Y Ddeddf") bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

1.2 Caiff y Rheoliadau sy'n destun y Memorandwm Esboniadol hwn, sef Rheoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025 ("Rheoliadau Diwygio 2025") eu gwneud gan ddefnyddio pwerau cyfatebol a gynhwysir yn y Ddeddf i nodi sut i gyfrifo canran y gweithgareddau a wneir gan berson y mae angen eu gwneud o dan drefniadau fertigol a llorweddol (contractau esempt).

1.3 Bydd Rheoliadau Diwygio 2025 yn gwneud newid mân hefyd i Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 i ymdrin â sylw a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) ar Reoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

1.4 Mae Rheoliad 1 a 2 o Reoliadau Diwygio 2025 yn rhoi'r teitl, pryd y daw'r Rheoliadau i rym a manylion "dehongli".

1.5 Mae rheoliadau 3(2) a 3(3) yn diwygio Rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau 2024 sy'n ymwneud â'r diffiniad o "utility". Bydd y diwygiadau hyn yn gymwys i awdurdodau contractio sy'n awdurdodau Cymreig datganoledig neu sy'n cael eu trin felly.

1.6 Mae Rheoliad 3(4) yn diwygio Rheoliad 45 o Reoliadau 2024 ac yn ymwneud â "Chontractau esempt: cyfrifiadau trefniadau fertigol" a "Contractau esempt: cyfrifiadau trefniadau llorweddol".

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae Rheoliadau Diwygio 2025 yn mynd i'r afael â phwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad[1] ar Reoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025, SL(6)571.

[1] https://senedd.cymru/media/cufj2qp4/cr-ld16940-w.pdf

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud Rheoliadau Diwygio 2025 gan arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 122(3) o Ddeddf Caffael 2023 a pharagraffau 2(6) a 3(3) o Atodlen 2 iddi.

3.2 Yn unol â darpariaethau adran 122(10) o Ddeddf 2023, bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 2(6) a 3(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae angen Rheoliadau Diwygio 2025 i sicrhau bod Awdurdodau Contractio Cymru (ACCau) yn gallu cymhwyso'r gofynion sy'n ymwneud ag Atodlen 2 i'r Ddeddf mewn ffordd gyson. Disgwylir iddynt ddod i rym ar 23 Mehefin 2025.

## 5. Sut bydd yr is-ddeddfwriaeth yn gwella’r sefyllfa bresennol

5.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ACCau ymgymryd â'r broses ar gyfer cyfrifo trefniadau fertigol a threfniadau llorweddol mewn modd cyson gyda manylion clir ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth wneud y cyfrifiadau hyn.

5.2 Mwy o eglurder: Mae diffiniadau a dulliau cyfrifo clir yn gwella dealltwriaeth o arferion caffael sy'n ymwneud â chyfrifo canrannau trefniant fertigol neu lorweddol, ac yn sicrhau cysondeb yn y broses.

5.3 Gwella effeithlonrwydd: Mae gweithdrefnau symlach yn arbed amser ac adnoddau ac yn lleihau'r risg o gael eu herio.

## 6. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

6.1 Mae Rheoliadau Diwygio 2025 yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau dull cyson o gyfrifo canran y gweithgareddau a wneir gan berson mewn perthynas â threfniadau fertigol a llorweddol, a thrwy hynny galluogi ACC i benderfynu a yw contract wedi'i esemptio rhag gofynion y Ddeddf. Bydd hyn yn sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Mae prif fanteision hynny wedi'u nodi yn adran 5 uchod.

## 7. A fydd y ddeddfwriaeth yn gwella mynediad neu ganlyniadau ar gyfer rhannau o gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi'u hallgáu

7.1 Bydd y Rheoliadau hyn a'r Ddeddf, ochr yn ochr â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (SPPP) a Deddf Caffael Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 (HSP), yn ategu ei gilydd i ddarparu fframwaith effeithiol ar gyfer caffael yng Nghymru a fydd, gyda Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (CBFGA), yn sicrhau bod sector cyhoeddus Cymru yn defnyddio caffael fel ysbardun effeithiol i sicrhau canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys gwaith teg.

7.2 Mae'r darpariaethau yn Rheoliadau 2024 yn dechnegol eu natur i raddau helaeth, gan reoleiddio sut y mae prosesau caffael cyhoeddus yn cael eu cynnal. Mae natur Rheoliadau Diwygio 2025 yn golygu bod eu heffaith ar gydraddoldeb yn fach, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

7.3 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer 'cadw' rhai contractau er mwyn i ddarparwyr cyflogaeth a gefnogir yn unig gael cymryd rhan yn y broses gaffael. Mae darparwyr cyflogaeth a gefnogir yn sefydliadau sy'n gweithredu er mwyn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth i unigolion anabl neu ddifreintiedig, ac y mae eu gweithlu'n cynnwys 30 y cant o bobl sy'n anabl neu dan anfantais. Drwy ddarparu ar gyfer amddiffyn contractau penodol ar gyfer y sefydliadau hyn, mae'r Ddeddf yn helpu i gau'r bwlch cyflogaeth rhwng gweithwyr sy'n anabl neu dan anfantais a gweithwyr eraill.

7.4 Er nad yw'r Rheoliadau na'r Ddeddf gysylltiedig yn gwneud unrhyw gyfeiriad uniongyrchol arall at unrhyw nodweddion gwarchodedig, bydd yn ofynnol i ACCau roi sylw dyledus i'r WPPS a gyhoeddir o dan y Ddeddf. Dylai ACCau ystyried sut y gallant ddefnyddio caffael cyhoeddus i sicrhau canlyniadau ychwanegol drwy'r gwaith caffael y maent yn ei wneud fel ei fod sicrhau gwerth am arian ac yn gysylltiedig â phwnc y contract. Amlinellir y canlyniadau ychwanegol hynny yn WPPS.

7.5 Nid yw'r Rheoliadau na'r Ddeddf gysylltiedig yn rhoi rhai pobl na grwpiau o dan fwy o anfantais nag eraill. Ni nodwyd unrhyw effeithiau neu rwystrau negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Nodwyd manteision cadarnhaol fel yr amlinellir uchod.

## 8. Ymgynghori

8.1 Ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024, cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol gan ddefnyddio Offerynnau Statudol (OS) Drafft Llywodraeth y DU gyda dogfennau ategol dwyieithog yn esbonio'r rhanddirymiadau / gwahaniaethau a gynigir i Gymru. Cynhwyswyd Cyfrifiadau'r Trefniadau fertigol a llorweddol yn yr ymgynghoriad hwnnw.

8.2 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion wedi'u cyhoeddi yn:

- Ymgynghoriad Cymru ar Reoliadau Caffael Cyhoeddus: Rhan 1
- Ymgynghoriad Cymru ar Reoliadau Caffael Cyhoeddus: Rhan 2

8.3 Mae'r newid i leoliad y diffiniad o "utility" yn ymateb i'r pwynt technegol a gynhwysir yn adroddiad LJCC ar Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025. Mae hyn yn dechnegol ei natur ac felly nid oes ymgynghoriad pellach wedi'i gynnal ar yr elfen hon.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 9. Cyflwyniad

9.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn (RIA) yn asesu effeithiau posibl y Rheoliadau arfaethedig o dan y Ddeddf Gaffael. Mae'r asesiad yn ystyried dau opsiwn: Busnes fel arfer (gwneud dim) a gwneud is-ddeddfwriaeth.

9.2 Nod yr RIA yw nodi unrhyw gostau pontio ychwanegol i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Contractio Cymru (ACCau), neu ddarpar gynigwyr, yn ogystal ag unrhyw gostau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Rheoliadau arfaethedig.

**Opsiynau a ystyriwyd**

## 10. Opsiwn 1: Busnes fel Arfer – Gwneud dim

10.1 Byddai gwneud dim yn golygu na fyddai Gweinidogion Cymru'n mynd â'r pwerau a gynhwysir yn Neddf Caffael 2023 yn eu blaen o ran gwneud Rheoliadau ar gyfer cyfrifo trefniadau fertigol a llorweddol a chywiro’r broblem fach ynghylch dehongli a nodwyd gan y LJCC.

10.2 Byddai hyn yn golygu na fyddai sail statudol i'r broses a ddefnyddir gan ACCau i gyfrifo'r canrannau yn Atodlen 2, paragraffau 2 a 3 o'r Ddeddf. Canllawiau fyddant yn unig.

10.3 Gallai hyn beri dryswch i ACCau a bod yn anghyson â'r ffordd y gwneir pethau gan Weinidog y Goron ac adran Gogledd Iwerddon lle ceir Rheoliadau ar y mater hwn.

10.4 Byddai gwneud dim mewn perthynas â'r broblem fach a godwyd gan LJCC yn golygu na fydd modd gwneud y cywiriad gofynnol a nodwyd gan y pwyllgor.

## 11. Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth

11.1 Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys rhoi polisi Llywodraeth Cymru ynghylch cyfrifo trefniadau fertigol a llorweddol mewn Rheoliadau (maent mewn canllawiau ar hyn o bryd).

11.2 Bydd hyn yn rhoi eglurder i ACCau, yn sicrhau cysondeb ac yn rhoi sylfaen statudol i'r broses gyfrifo.

**12. Costau a manteision - Opsiwn 1: Gwneud dim**

12.1 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

12.2 Ni nodwyd unrhyw fanteision eraill.

**13. Costau a manteision - Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth**

13.1 Mae'r Rheoliadau yn glir ynghylch y broses y dylid ei dilyn ac i raddau helaeth yn ailadrodd y broses sydd yn y canllawiau cyfredol. Bydd angen rhai mân gywiriadau i'r canllawiau ond disgwylir i'r gost gyfle sy'n gysylltiedig ag adnodd staff Llywodraeth Cymru sydd ei angen i wneud y newidiadau hynny fod yn fach iawn.

13.2 O ystyried bod y broses a nodir yn y Rheoliadau yn debyg iawn i'r hyn sydd yn y canllawiau, nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw gostau pontio ychwanegol i'r awdurdodau contractio. Ni ragwelir unrhyw gostau hyfforddi na chynefino.

13.3 Nid oes gennym unrhyw ddata ynghylch pa mor aml y mae angen cyfrifo trefniadau llorweddol a fertigol ar hyn o bryd. Ond, rydym yn tybio bod y canllawiau presennol yn cael eu defnyddio pan fo angen. O ystyried bod y broses a nodir yn y Rheoliadau yn debyg iawn i'r hyn sydd yn y canllawiau, nid ydym yn rhagweld unrhyw gostau parhaus ychwanegol i ACCau.

13.4 Yn yr un modd, ni ddisgwylir y bydd rhoi sail statudol i'r canllawiau yn golygu cost ychwanegol i gontractwyr nac yn cael effaith ar ddyfarnu contractau.

13.5 Mantais opsiwn 2 yw y bydd yn gwneud y broses y mae angen ei dilyn yn gliriach, ac yn rhoi sail statudol i'r polisi sydd yn y canllawiau gan sicrhau bod ACCau yn defnyddio dull cyson. Bydd hefyd yn cywiro problem fach a godwyd gan LJCC. Am y rhesymau hyn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.